



Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC)

Cofnodion Cyfarfod y Bwrdd Iechyd a gynhaliwyd yn Gyhoeddus ar 30 Mawrth 2021: Dros gynhadledd Zoom

Yn bresennol:

Mark Polin	Cadeirydd
Louise Brereton	Ysgrifennydd y Bwrdd
Cheryl Carlisle	Aelod Annibynnol
Gareth Evans	Cadeirydd Fforwm Gweithwyr Proffesiynol Gofal Iechyd
Sue Green	Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol
Arpan Guha	Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol Dros Dro
Sue Hill	Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid
Jackie Hughes	Aelod Annibynnol
Medwyn Hughes	Aelod Annibynnol
Lyn Meadows	Aelod Annibynnol
Teresa Owen	Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus
Lucy Reid	Is-gadeirydd
Chris Stockport	Cyfarwyddwr Gweithredol Gofal Cychwynnol a Gwasanaethau Cymunedol
Adrian Thomas	Cyfarwyddwr Gweithredol Therapiau a Gwyddorau Iechyd
Linda Tomos	Aelod Annibynnol
Jo Whitehead	Prif Weithredwr
Mark Wilkinson	Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad

Yn bresennol:

Kate Dunn	Pennaeth Materion Corfforaethol (<i>ar gyfer cofnodion</i>)
Gwilym Ellis-Evans	Is-gadeirydd Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid
Lowri Gwyn	Cyfieithydd
Debra Hickman	Cyfarwyddwr Nyrsio Gofal Eilaidd (<i>ar gyfer Gill Harris</i>)
Fiona Lewis	Swyddog Busnes Corfforaethol (<i>ar gyfer cymorth ffrydio byw</i>)
Llinos Roberts	Rheolwr Busnes Gweithredol (<i>ar gyfer cymorth ffrydio byw</i>)

Eitem ar yr Agenda a Drafodwyd	Gweithredu gan
21.62 Sylwadau Agoriadol y Cadeirydd	
21.62.1 Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.	
21.63 Ymddiheuriadau am Absenoldeb	
21.63.1 Fe'i cofnodwyd ar gyfer Eifion Jones, Nicky Callow, John Cunliffe, Gill Harris, Morwena Edwards a Ffrancon Williams.	
21.64 Datganiadau Diddordeb	
21.64.1 Dim wedi eu cyhoeddi.	

21.65 Adroddiad Statws - Achosion COVID 19 Ysbyty Gwynedd (YG)

21.65.1 Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr eitem ar yr agenda trwy nodi bod y Bwrdd yn cymryd yr achos o ddifrif ac wedi rhoi ystod o gamau ar waith i reoli'r sefyllfa a oedd bellach yn dechrau cael effaith gadarnhaol. Dymunodd gydnabod y niwed a thralod y mae achosion Covid-19 yn ei achosi mewn unrhyw ysbyty.

21.65.2 Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Nyrsio Gofal Eilaidd fod achos Lefel 3 wedi'i gadarnhau cyn pen 24 awr ar ôl uwch-gyfeirio ar y safle a sefydlwyd uwch dîm arwain ar unwaith i gynnal adolygiad cyflym o ddigwyddiadau ac i roi cyfres o gamau ar waith sy'n parhau i gael eu monitro. Mae'r gweithredoedd yn cynnwys peidio caniatáu staff i symud cyn asesiad risg a chael cymeradwyaeth gan yr uwch dîm; adolygiad o'r llwybrau coch a gwyrdd o ran priodoldeb symud cleifion gydag unrhyw symud anghlinigol yn cael ei uwch-gyfeirio; sgrinio wrth dderbyn ac ar ddiwrnod pump a oedd bellach yn dangos gostyngiad mewn amrywiad; comisiynu adolygiad allanol; cwblhau hunanasesiad ar draws y sefydliad, a datblygu cynllun gweithredu gan gynnwys ystod o gylchoedd gwella 90 diwrnod. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Nyrsio Gofal Eilaidd fod y data epidemioleg diweddar yn dangos cymysgedd o drosglwyddiad yn yr ysbyty ac yn y gymuned. Sicrhaodd yr aelodau fod y broses o sefydlogi'r achosion bellach yn cael ei arsylwi a bod ymyriad yn y cylchoedd trosglwyddo. Nodwyd bod newid diwylliant arwyddocaol a bod y Bwrdd yn gweithio'n agos gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru i danategu rhaglenni gyda gwyddor ymddygiad. Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Nyrsio Gofal Eilaidd at elfennau y gellir eu hosgoi o heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd ac y byddai'n gweithredu dull dim goddefgarwch tuag at ddiffyg cydymffurfio. Byddai gweithio ar y cyd yn sylfaenol i gyflawni hyn ac roedd partneriaid yr Awdurdod Lleol a rhanddeiliaid yn gweithio ar y cyd â'r Bwrdd Iechyd. Ychwanegodd y Prif Weithredwr y byddai'r adolygiad allanol yn cael ei ddisgrifio fel adolygiad arbenigol pwnc a byddai'n sicrhau bod cydweithwyr y Bwrdd yn gwbl fodlon â natur annibynnol yr adolygiad.

21.65.3 Cafwyd trafodaeth. Gofynnodd Aelod Annibynnol a yw'r swyddogion yn credu bod y sefyllfa yn un y gellir ei hatal neu'n anochel, gan alw i gof yr aelodau a oedd wedi mynegi pryder ar y cyfraddau trosglwyddo lleol yn y Gorllewin. Teimlai fod aelodau o'r cyhoedd bellach yn dymuno cael hyder yn y safle a'r gwasanaethau wrth symud ymlaen, a gofynnodd am sicrwydd bod y camau priodol wedi'u rhoi ar waith i leihau heintiau Covid-19 yn YG a bod llif y cleifion i'r safle ac oddi yno yn cael ei fonitro gyda mantais gan y gwersi a ddysgwyd o achosion blaenorol a chydymffurfiaid â'r canllawiau rhyddhau cyfredol. Ymatebodd y Prif Weithredwr bod y Grŵp Cydlynu Strategol (SCG) aml-asiantaeth wedi cwrdd ar 29 Mawrth a thrafodwyd y sefyllfa yn YG gyda chydweithwyr gan adrodd ar y gobaith gwyliadwrus o ran y sefyllfa yng Ngwynedd ac Ynys Môn, a bod y risg yn gostwng. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Nyrsio Gofal Eilaidd fod trefniadau rhyddhau BIPBC yn adlewyrchu arweiniad cenedlaethol ac yn seiliedig ar risg ac o dan arweiniad clinigol.

21.65.4 Holodd yr Aelod Annibynnol am y lefel o gymorth, gwybodaeth a chyfarwyddyd a gafodd y staff. Ymatebodd y Cyfarwyddwr Nyrsio Gofal Eilaidd fod y gwaith yn parhau i gefnogi staff ar draws yr holl safleoedd o amgylch ymddygiad Covid-19 gan gynnwys creu taflen 'Cwestiynau Cyffredin'. Cydnabu y byddai amrywiad ac mai'r nod fyddai gostwng hyn trwy arweinyddiaeth hygyrch a phresenoldeb gweladwy o uwch aelodau o staff. Yn ogystal, roedd cynrychiolwyr staff ar y Tîm Rheoli Clwstwr Achosion (OCT). Rhoddwyd rhywfaint o sicrwydd i'r aelodau bod adborth a phryderon gan staff ar safle YG hyd yma wedi bod yn fach

iawn ond roedd hwn yn parhau i fod yn faes ar gyfer ffocws parhaus a bod staff yn cael eu hannog i herio a chodi unrhyw bryderon.

21.65.5 Nododd yr Is-Gadeirydd bod y Bwrdd wedi cael trafodaeth fanwl am yr achosion yn YG yn y briff Covid-19 preifat yn ystod yr wythnos flaenorol, a rhoddoddybwyb i aelodau fod y Tîm Rheoli Ysbyty wedi eu gwahodd i fynychu'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad (QSE) ar 4 Mai i ganiatáu craffu pellach ar weithredoedd a dysgu o'r hyn sydd wedi digwydd. Nododd mai rôl yr OCT oedd archwilio ffynhonnell yr achosion ac ymholi a oedd gwybodaeth a data gan Brofi, Orlhain a Diogelu (TTP) yn cael ei defnyddio. Ymatebodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus fod y wybodaeth TTP yn ddefnyddiol wrth bennu a oedd clwstwr achosion yn y gymuned a bod y Bwrdd Iechyd yn gweithio'n agos gyda phartneriaid Awdurdod Lleol mewn lleoliadau lleol a rhanbarthol gan gynnwys ysgolion, cartrefi gofal a gweithleoedd. Cadarnhaodd fod gan yr OCT fynediad at y data TTP.

21.65.6 Cyfeiriodd y Cadeirydd at y pryderon cyfredol o amgylch yr heintiadau Covid-19 yng Nghaergybi a gofynnodd i Gyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus ddiweddarau'r Bwrdd. Nodwyd bod gwaith eithriadol rhwng y partneriaid yn mynd rhagddo yn dilyn cydnabod niferoedd mwy na'r disgwyl o heintiadau yng Nghaergybi. Roedd dull tîm rheoli digwyddiad ar waith i sicrhau bod profion effeithiol a syml ar gael i gleifion gael mynediad atynt yn hawdd. Teimlai'r Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus fod yr ymdrechion yn gwneud gwahaniaeth a bod y tîm rheoli digwyddiad yn gallu gweld gwelliant. Ychwanegodd y Cadeirydd ei fod wedi clywed adborth bositif gan bartneriaid a'i fod yn dymuno cofnodi ei ddiolch i'r sawl sy'n ymwneud â'r achos.

21.65.7 Sicrhaodd y Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol Dros Dro yr aelodau ei fod wedi ailadrodd wrth staff clinigol y dylid cymryd pob cyfle i orfodi'r angen i ddilyn gweithdrefnau atal a rheoli heintiau, ac roedd wedi ei gwneud yn ofynnol i arweinwyr clinigol fod â mwy o welededd i annog ymddygiadau tîm da ac i herio diffyg cydymffurfiaid.

21.65.8 Codwyd pwynt cywirdeb o ran y naratif o fewn y papur o amgylch yr adrodd ar RIDDOR a oedd yn awgrymu bod yr holl achosion staff yn adroddadwy. Derbyniodd y Cyfarwyddwr Gweithredol y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol y byddai "adrodd fel sy'n briodol" wedi bod yn eiriad mwy priodol.

21.65.9 Gofynnodd y Cadeirydd am sicrwydd ynghylch lefel yr hyder bod y camau gweithredu ar unwaith i ddod â'r clwstwr achosion yn YG dan reolaeth ar waith yn briodol, ac a oedd camau wedi'u cynllunio ar y gweill yn briodol i geisio atal achosion pellach. Nododd y Cyfarwyddwr Nyrsio Gofal Eilaidd fod y niferoedd o drosglwyddiadau wedi gostwng yn sylweddol a gellir cymryd sicrwydd o hynny bod y gweithredoedd wedi cael effaith bositif ar y niferoedd. Cydnabu fod gwaith i'w wneud o hyd - er enghraifft ymateb i arweiniad newydd o amgylch sgrinio cleifion mewnol ar ddiwrnod pump - ond roedd yn hyderus bod y sefydliad yn dangos y llymder priodol o ran monitro a goruchwyllo. Ychwanegodd hefyd y byddai cynnal y gwelliant mewn ymddygiad yn her wrth symud ymlaen. Dywedodd y Prif Weithredwr ei bod magu hyder wrth i'r niferoedd ostwng, o adborth cleifion a sicrwydd gan gydweithwyr y Bwrdd clinigol. Awgrymodd y byddai darn allweddol pellach o sicrwydd trwy'r adolygiad allanol. Cydnabu'r Prif Weithredwr ei bod yn amhosibl dweud na fyddai unrhyw achosion eraill mewn lleoliad ysbyty ond roedd yn derbyn bod gan y Bwrdd gyfrifoldeb i leihau'r fath achosion a gwneud y mwyaf o allu'r

<p>sefydliad i reoli unrhyw achosion yn gyflym. Holodd y Cadeirydd ynghylch statws yr hunanasesiadau a oedd i'w casglu erbyn 22 Mawrth a chadarnhaodd y Cyfarwyddwr Nyrsio Gofal Eilaidd eu bod wedi eu derbyn a'u casglu, ac y byddent yn cefnogi'r cynlluniau ardal yn nhermau'r rhaglen Gofal Diogel Glân.</p> <p>21.65.10 Cododd y Cadeirydd y mater o ddysgu gan glwstwr achosion mewn mannau eraill yng Nghymru a dywedodd y Cyfarwyddwr Nyrsio Gofal Eilaidd fod gwybodaeth yn cael ei rhannu ar draws fforwm Cyfarwyddwyr Nyrsio Gweithredol. Roedd hefyd yn ymwybodol bod PBC wedi trawsgyfeirio ei phrosesau yn erbyn cyfres o ddogfennau a gafodd eu cylchredeg gan Lywodraeth Cymru a'i bod yn amlwg o'r data nad oedd achosion yng Ngogledd Cymru wedi cael cymaint o effaith â rhai mewn ardaloedd eraill yng Nghymru a'u bod wedi eu dwyn o dan reolaeth yn gyflymach.</p> <p>21.65.11 Nododd y Cadeirydd nad oedd cylch gorchwyl yr adolygiad annibynnol wedi'i gymeradwyo eto ac awgrymodd y dylai aelodau'r Bwrdd anfon unrhyw sylwadau i swyddfa'r Prif Weithredwr erbyn diwedd dydd 31 Mawrth.</p> <p>21.65.12 Penderfynwyd y byddai'r Bwrdd yn nodi'r adroddiad fel statws cyfredol ar gyfer Ysbyty Gwynedd gan fanylu ar y sefyllfa gyfredol, addysg ragarweiniol a gweithredoedd brys gan gynnwys y rhai ar draws y Bwrdd Iechyd.</p>	Holl Aelodau
<p>21.66 Diweddariad Pandemig Covid-19</p> <p>21.66.1 Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Cychwynnol a Chymunedol gyflwyniad a amlinellodd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Lefelau cymunedol Covid-19 - nodi bod cynyddu capasiti profi yn golygu bod mwy o brofion positif yn cael eu cofnodi. • Data cleifion mewnol ysbyty sy'n dangos bod gweithgarwch yn gostwng dros Ogledd Cymru. 136 claf mewnol a gofnodwyd fel y nifer diweddaraf. • Parhaodd y rhaglen TTP gan ymgymryd ag olrhain cysylltiadau yn ôl ac ymlaen bellach, ac mae adnoddau profi ychwanegol wedi'u rhoi ar waith ar gyfer ardal Caerdybi. • Mae 420,000 dos wedi eu rhoi yng Ngogledd Cymru gan gynnwys 104,000 ail ddos gyda gwaith bellach yn mynd tuag at gyflawni carreg filltir 2 ar gyfer grwpiau 5-9. Adroddwyd bod Llywodraeth Cymru yn hyderus y byddai cyflenwadau digonol i gyrraedd y garreg filltir hon a symud ymlaen at garreg filltir 3. • Cynhaliwyd yr egwyddor o "adael neb ar ôl" a gallai unrhyw un a oedd wedi methu mynychu ei apwyntiad brechu, a'i grŵp blaenoriaeth eisoes wedi'i alw, drefnu i dderbyn ei frechiad trwy ffonio ar 03000 840004. • Cafodd ystod o benderfyniadau gan y Tîm Rheoli Digwyddiad Gweithredol eu crynhoi o fewn y cyflwyniad. <p>21.66.2 Cafwyd trafodaeth. Codwyd y pwynt ynghylch negeseuon cyfathrebu parhaus i gynnal hyder y cyhoedd yn y rhaglen frechu ac yn benodol i sicrhau nad oedd gan bobl agwedd hunanfodhaol ar ôl derbyn eu dos cyntaf. Ymgwymerodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gofal Cychwynnol a Gwasanaethau Cymunedol i fynd i'r afael â'r mater i weld a oes unrhyw beth arall yn gallu cael ei wneud ar adeg y brechiad. Dymunodd bwysleisio bod y brechlyn yn ddiogel ac ni ddylai straeon croes yn y cyfryngau olygu bod pobl yn llai parod i'w gael. Cyfeiriodd yr Is-Gadeirydd at reolaeth y cyfraddau Heb Fynychu (DNA) yn y Canolfannau Brechu Torfol. Dynododd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gofal Cychwynnol a Gwasanaethau Cymunedol eu bod yn gyfraddau gweddol isel a bod system rhestr wrth gefn ar waith</p>	CS

<p>i sicrhau na châi'r brechlynnau eu gwastraffu. Cyfeiriodd y Cadeirydd at sylw diweddar iawn ar y cyfryngau cymdeithasol yn ymwneud â chlwstwr Arfon a'r niferoedd uchel ymddangosiadol o rai Heb Fynychu dros un penwythnos. Bydd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gofal Cychwynol a Gwasanaethau Cymunedol yn ymchwilio i'r mater i gadarnhau'r niferoedd gwirioneddol a phennu'r rhesymau gwaelodol.</p> <p>21.66.3 Dymunodd y Cadeirydd gofnodi yn gyhoeddus bod y Bwrdd yn ystyried modelu gwybodaeth o ran trydedd don posib mewn sesiwn breifat yn ddiweddarach.</p> <p>21.66.4 Penderfynwyd y byddai'r Bwrdd yn nodi'r adroddiad a'r cyflwyniad ategol a chefnogi penderfyniadau a wneir gan y Tîm Gweithredol Rheoli Digwyddiadau (EIMT).</p>	CS
<p>21.66a Cynllun Blynyddol 2021-22 ar ffurf Drafft - Diweddariad</p> <p>21.66a.1 Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad y papur a ddarparodd ddiweddariad mewn sesiwn gyhoeddus yn erbyn y gofyniad i gyhoeddi cynllun blynyddol ar gyfer 2021-22. Cadarnhaodd fod y cynllun drafft llawn i'w drafod yn y sesiwn breifat ddiweddarach a bod y Bwrdd yn rhagweld cyhoeddi'r cynllun terfynol cyn diwedd Mehefin 2021.</p> <p>21.66a.2 Penderfynwyd y byddai'r Bwrdd yn nodi'r adroddiad.</p>	
<p>21.67 Trosglwyddiad Golchdy Glan Clwyd BIPBC</p> <p>21.67.1 Cyflwynodd Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad papur a fanylodd ar y cam olaf yn y trosglwyddiad i wasanaeth golchdy Cymru gyfan a ddechreuodd yn 2016. Cadarnhaodd fod yr opsiwn a ffafrir a'r cyfeiriad gweithredu cytunedig wedi aros yn ddigyfnewid trwy'r cyfan a chefnogwyd symud i un darparwr gwasanaeth o hyd. Nodwyd bod y papur yn amlinellu trosglwyddiad fesul cam o adnoddau i ganiatáu i Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru gynnal y gwasanaeth o Ebrill 2021 ymlaen, ac amlinellwyd materion yn ymwneud ag asedau, cludiant, trefniadau TUPE ac adnoddau ariannol yn y papur hefyd.</p> <p>21.67.2 Dymunodd yr Aelod Annibynnol (Undebau Llafur) bwysleisio faint o waith sydd wedi ei wneud yn nhermau cefnogi staff drwy gydol y broses sydd wedi ei werthfawrogi'n fawr gan y gweithlu. Holodd y Cadeirydd ynghylch cymeradwyo'r Tîm Gweithredol a chadarnhawyd bod y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid wedi cadw golwg y Tîm Gweithredol ar y cynnydd trwy ei haelodaeth o'r Grŵp Cydwasanaethau perthnasol, a bod y papur wedi derbyn cymeradwyaeth y Prif Weithredwr cyn ei gyhoeddi. Hefyd, fe wnaeth gadarnhau nad oedd cymhlethdodau ariannol i'r Bwrdd Iechyd.</p> <p>21.67.3 Penderfynwyd y byddai'r Bwrdd Iechyd yn:</p> <p>1. Cymeradwyo'r trosglwyddiad o'r holl rannau cyfansoddol a ddynodwyd o ran Cyllideb, Gweithlu a Logisteg i ganiatáu i Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (NWSSP) i barhau i gynnal golchdy Glan Clwyd hyd y bydd penderfyniad ar Raglen Olchdy Cymru Gyfan a'r trawsnewidiadau tuag at y cyfleuster newydd fel yr amlinellir o fewn y Rhaglen Achos Busnes.</p>	

<p>2. Cymeradwyo meddiannaeth a defnydd parhaus o uned gynhyrchu bresennol Golchdy Glan Clwyd yn amodol ar gwblhau MOTO (Memorandwm Telerau Meddiannaeth).</p> <p>3. Cefnogi parhau i danategu gwasanaethau cymorth megis TG, gwaith cynnal a chadw a ddarperir yn allanol, neu unrhyw wasanaeth arall a ddarperir i'r Golchdy gan y Bwrdd Iechyd neu drydydd parti tan y bydd trosglwyddiad, newyddiad a gweithgareddau mudo yn cael eu trefnu fel y rhestrir uchod.</p> <p>4. Nodi y bydd gweithgarwch trawsffurfio yn cael ei drefnu.</p> <p>5. Nodi y bydd y trosglwyddiad fesul cam yn caniatáu i'r NWSSP gynnal y gwasanaeth o Ebrill 2021 ymlaen gyda cham pellach i fynd i'r afael ag elfennau perthnasol i drosglwyddo asedau ac elfennau mwy cymhleth eraill.</p>	
<p>21.68 Ymgynghoriad ar Bapur Gwyn 'Cydbwysio Gofal a Chymorth', Llywodraeth Cymru: Ymateb BIPBC</p> <p>21.68.1 Cyflwynodd Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad bapur a amlinellodd ymateb drafft y Bwrdd i'r ymgynghoriad. Nod y Papur Gwyn oedd cryfhau'r sector gofal cymdeithasol yng Nghymru a gwella ansawdd y gofal, gyda gofyn am yr ymatebion erbyn 6 Ebrill 2021. Nodwyd bod yr ymateb wedi ei lywio gan y drafodaeth a gynhaliwyd yn y Gweithdy Bwrdd preifat ar 8 Mawrth, ac yn ogystal bod ymateb ar y cyd yn cael ei ddatblygu gyda phartneriaid.</p> <p>21.68.2 Teimlai'r Is-Gadeirydd y gallai'r ddeddfwriaeth gael effaith bositif arwyddocaol ond teimlai y byddai angen ystyried y gwahaniaethau demograffig a chomisiynu ar draws Cymru. Pwysleisiodd aelod arall y pwysigrwydd o sicrhau bod y claf bob amser yn ganolog i unrhyw benderfyniad.</p> <p>21.68.3 Penderfynwyd y byddai'r Bwrdd Iechyd yn cymeradwyo ymateb ymgynghoriad BIPBC i Bapur Gwyn, 'Cydbwysio Gofal a Chymorth' Llywodraeth Cymru.</p>	
<p>21.69 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf</p> <p>22.4.21 2.00pm Bwrdd ar y Cyd gyda'r Cyngor Iechyd Cymunedol 20.5.21 9.30am Bwrdd Iechyd BIPBC</p>	
<p>21.70 Heb y Wasg a'r Cyhoedd</p> <p>21.70.1 Penderfynwyd eithrio cynrychiolwyr o'r wasg ac aelodau eraill o'r cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn yng ngoleuni natur gyfrinachol y materion sydd i'w trafod, y byddai cyhoeddusrwydd arnynt yn niweidiol i ddiddordeb y cyhoedd yn unol ag Adran 1 (2) Y Ddeddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960.</p>	